OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 528 (Cy.73)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU
# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor ac Ardrethu Annomestig (Diwygio) (Cymru) 2011

*Gwnaed - - - - 21 Chwefror 2011*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 25 Chwefror 2011*

*Yn dod i rym - - 1 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan—

(a) adrannau 143(2) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraffau 1 a 3(3) o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno, a

(b) adran 113(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**2**) a pharagraffau 1, 2, 3, 17 a 20 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno,

ac a freinir bellach ynddynt hwy(**3**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor ac Ardrethu Annomestig (Diwygio) (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran awdurdodau bilio(**4**) yng Nghymru.

(3) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i—

(**1**) 1988 p.41. Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 9 yn rhagolygol gan baragraff 89 o Atodlen 13 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (p.15). Diwygiwyd paragraff 3(3) gan baragraff 87(2)(b) o Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p.14).

(**2**) 1992 p.14. Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 4 yn rhagolygol gan baragraff 107(2) o Atodlen 13 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007.

(**3**) Mae'r pwerau hyn bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Trosglwyddwyd hwy cyn hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); *gweler* y cofnodion yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), trosglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru.

(**4**) Diffinnir y term "billing authority" yn adran 144(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac adran 69(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r diffiniad yn adran 144(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn gweithredu drwy gyfeirio at Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

(a) cais am orchymyn dyled a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2011, neu

(b) cais o fath a grybwyllwyd yn y tablau a ddisodlwyd gan yr Atodlenni i'r Rheoliadau hyn ac a wneir cyn 1 Ebrill 2011.

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989(**5**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 12 (cais am orchymyn dyled)—

(a) ym mharagraff (6)(b), ar ôl “the order”, mewnosoder “(which costs, including those of instituting the application under paragraph (2), are not to exceed the prescribed amount of £70)”;

(b) ym mharagraff (7), ar ôl “the application”, mewnosoder “(which costs, including those of instituting the application under paragraph (2), are not to exceed the prescribed amount of £70)”.

(3) Yn lle Atodlen 4, rhodder yr atodlen sydd yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

**Diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992**

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992(**6**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 34 (cais am orchymyn dyled)—

(a) ym mharagraff (7)(b), ar ôl “the order”, mewnosoder “(which costs, including those of instituting the application under paragraph (2), are not to exceed the prescribed amount of £70)”;

(b) ym mharagraff (8), ar ôl “the application”, mewnosoder “(which costs, including those of instituting the application under paragraph (2), are not to exceed the prescribed amount of £70)”.

(3) Yn lle Atodlen 6, rhodder yr atodlen sydd yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

21 Chwefror 2011

(**5**) O.S. 1989/1058. Yr offerynnau perthnasol sy'n diwygio yw O.S. 1998/3089, 1990/145, 1992/474, 1993/616, 1998/3089, 2003/1714 (Cy.182).

(**6**) O.S. 1992/613. Yr offerynnau perthnasol sy'n diwygio yw O.S. 1992/3008, 1994/505, 1998/295, 2003/1715 (Cy.183).

ATODLEN 1

"SCHEDULE 4

Regulation 16(6A) and (6B)

Costs connected with committal

| Application | Maximum Costs |
| --- | --- |
| For making an application for a warrant of commitment | £305.00 |
| For making an application for a warrant of arrest | £145.00." |

ATODLEN 2

"SCHEDULE 6

Regulation 47(6A) and (6B)

Costs connected with committal

| Application | Maximum Costs |
| --- | --- |
| For making an application for a warrant of commitment | £305.00 |
| For making an application for a warrant of arrest | £145.00." |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989 (O.S. 1989/1058) ("Rheoliadau 1989") a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 (O.S. 1992/613) ("Rheoliadau 1992"). Mewn perthynas â'r ddwy set o Reoliadau

- rhagnodir uchafsymiau ar gyfer y costau y caiff awdurdod bilio'u hadennill mewn cysylltiad â cheisiadau am orchmynion dyled; a
- cynyddir y costau mewn cysylltiad â thraddodi, y caiff awdurdod bilio'u hadennill mewn rhai amgylchiadau.

Daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Ebrill 2011 ac y maent yn gymwys o ran awdurdodau bilio yng Nghymru (rheoliad 1).

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 1989 (mewn perthynas ag ardrethu annomestig). Rhagnodir mai'r uchafswm y ceir ei ganiatáu i awdurdodau bilio am gostau mewn cysylltiad â chais am

orchymyn dyled, gan gynnwys costau cychwyn y cais, yw £70. Disodlir Atodlen 4 i Reoliadau 1989 (costau mewn cysylltiad â thraddodi) gan yr atodlen yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau 1992 (mewn perthynas â'r dreth gyngor). Rhagnodir mai'r uchafswm y ceir ei ganiatáu i awdurdodau bilio am gostau mewn cysylltiad â chais am orchymyn dyled, gan gynnwys costau cychwyn y cais yw £70. Disodlir Atodlen 6 i Reoliadau 1992 (costau mewn cysylltiad â thraddodi) gan yr atodlen yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.